| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | **Y Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru** |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod: | 23 Mehefin 2023 |
| Lleoliad: | Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru Plas Menai, Caernarfon |
| Yn bresennol: | Teitl: |
| Sam Rowlands (SR) | Cadeirydd – Aelod o'r Senedd |
| Rhun ap Iorwerth | Aelod o'r Senedd (ar gyfer Cyflwyniad 1) |
| Paul Donovan | Ysgrifenyddiaeth - Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru |
| Rebecca Brough | Ysgrifenyddiaeth – Ramblers Cymru |
| Harry Saville | Swyddfa Sam Rowlands AS |
| Emma Edwards-Jones | Aelod – Cynrychiolydd, Eryri-Bywiol |
| Alison Roberts | Sylwedydd – Cynrychiolydd, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Phil Stone | Aelod – Cynrychiolydd, Canŵ Cymru |
| Gethin Thomas | Aelod – Prifysgol Bangor |
| Tracey Evans | Aelod – Cynrychiolydd, Y Bartneriaeth Awyr Agored |
| Paul Frost | Aelod – Cynrychiolydd, Y Bartneriaeth Awyr Agored |
| Paul Airey | Aelod – Cynrychiolydd, Y Bartneriaeth Awyr Agored |
| Tom Carrick | Aelod - Cyngor Mynydda Prydain Cymru |
| Dave MacCallum | Sylwedydd – Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Arwel Phillips | Aelod - Urdd |
| Graham French | Aelod – Cynrychiolydd Gogledd Cymru, Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored Cymru |
| Steve Morgan | Aelod - Plas Menai |
| Alistair Dickson | Aelod - Canŵ Cymru |
| Eluned Roberts | Aelod – Sefydliad Dysgu Awyr Agored Cymru |

| | |
|---|---|
| Simon Patten | Aelod – Hyfforddiant Mynydda Cymru |
| Jethro Moore | Aelod - NCC ac Adventure Beyond |
| Mark Jones | Aelod - Cynrychiolydd y Bartneriaeth Awyr Agored |
| Gwenda Owen | Aelod – Cycling UK |
| Sioned Williams | Aelod – Nofio Cymru |
| Deborah Mahon | Aelod – Chwaraeon Cymru |
| Mike Smith | Aelod – SWOAPG a Dolygaer |

1. **Croeso, Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a sylwadau agoriadol**

Croesawodd Steve Morgan, Pennaeth Gweithrediadau Plas Menai, y grŵp i'r ganolfan a gwahoddodd yr aelodau i gymryd rhan mewn gweithgaredd dŵr ar ôl y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a nododd ei fwriad i rannu pwyntiau allweddol a chyflwyniadau o'r cyfarfod gyda'r Gweinidogion ac aelodau o'r Senedd er mwyn codi ymwybyddiaeth a thrafodaethau parhaus.

Sicrhaodd Rhun ap Iorwerth AS y grŵp o'i ymrwymiad i'r sector gweithgareddau awyr agored a'i fod yn awyddus i helpu i sicrhau mwy o gysylltiad drwy weithgarwch awyr agored, yn enwedig ymhlith pobl ifanc; croesawodd ymgysylltiad cryf y sector a gwnaeth gydnabod pwysigrwydd y syniadau a ddaeth drwy drafodaethau'r grŵp y gall gwleidyddion ymdrechu i'w cyflawni.

Nodwyd yr ymddiheuriadau a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2023 yn gywir.

*Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:*

- Mae llythyr aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol ynghylch treialon diwygio mynediad wedi'i anfon at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn dilyn ad-drefnu portffolios. Mae cyfarfod dilynol yn ceisio cael ei drefnu gyda'r Dirprwy Weinidog a chynrychiolwyr Cycling UK, Cerddwyr Cymru a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru.
- Darparwyd sesiynau briffio a chwestiynau pellach yn ymwneud â mynediad cyhoeddus a'r Bil Amaethyddiaeth i aelodau'r Senedd.

**Cyflwyniad 1: "Trafod diogelwch awyr agored… mae pawb yn arbenigwr!" (Emma Edwards-Jones- Eryri Bywiol, Paul Donovan - Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru)**

- Wedi'i sefydlu yng Nghymru i helpu i leihau'r pwysau ar Dimau Gwylwyr y Glannau, yr RNLI ac Achub Mynydd drwy fynd i'r afael â'r angen am wybodaeth diogelwch, roedd y dull Mentra'n Gall yn ymateb i ymgyrch Blwyddyn Antur Croeso Cymru.
- Mae'n fodel cydweithredol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a gefnogir yn ariannol i ddechrau gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth barhaus gan sefydliadau partner, sy'n gweithio i ddeall beth sy'n ysgogi galwadau achub.
- Gellir gweld problemau tebyg ar draws y byd ac yn awr yn rhan o grŵp rhyngwladol sy'n gweithio i hybu diogelwch yn yr awyr agored.
- Yr her yw trosi gwybodaeth arbenigol, fanwl i gyrraedd cyfranogwyr newydd a'r rhai sydd â rhywfaint o brofiad a hyder sy'n gwthio eu ffiniau.
- Mae Mentra'n Gall yn ymgyrch alluogi i gefnogi, nid dychryn, pobl; y ffocws yw newid ymddygiad i ddeall cymhellion a helpu pobl i gymryd cyfrifoldeb.
- Negeseuon wedi'u llunio'n ofalus, wedi'u datblygu ar y cyd ag arbenigwyr a'u rhannu drwy bartneriaid gan gynnwys busnesau twristiaeth sydd wedi cyrraedd cynulleidfaoedd targed.
- Amlygwyd pa mor bwysig yw llunio negeseuon, gan gynnwys mynd i'r afael ag amwysedd, cymhlethdod, a thybiaethau ynghylch lefelau dealltwriaeth (e.e. lefelau darllen)

- Adeiladu brand dibynadwy a chyson – partneriaeth, nid sefydliad, gyda phecyn cymorth busnes i annog darparwyr, y sectorau lletygarwch a manwerthu i rannu a chefnogi negeseuon.
- Pecyn cyfathrebu a brand llawn y gellir ei ddefnyddio mewn arddull 'dewis a dethol' gyda negeseuon eraill, e.e. cod Cefn Gwlad. Cyfarfodydd cymdeithasol dydd Gwener bob mis i ymhelaethu negeseuon drwy bartneriaid a gweithio gyda Mosaic Outdoors i gyrraedd grwpiau BME.
- Mae'r nifer fawr o bobl sy'n defnyddio'r prosiect yn Ardal y Llynnoedd wedi galluogi ehangu i brosiectau Mentra'n Gall UK (hefyd yng Ngogledd Iwerddon).
- Heriau parhaus o ganfod a defnyddio delweddau priodol, deniadol sy'n dangos arfer da, a bod yn ymwybodol bod technoleg ac arfer yn newid yn gyflym mewn rhai gweithgareddau.

**Roedd y pwyntiau trafod yn cynnwys y canlynol:**

Ystyried sut i ddefnyddio potensial fideos byr a dylanwadwyr TikTok - gan wneud y mwyaf o'r defnydd effeithiol o fideo ar y llwyfannau hyn, gan gynnwys gwerth tactegau 'sioc'.

Negeseuon llywio - gwnaed awgrym ynglŷn â gweithio gyda'r Ffederasiwn Cyfeiriannu neu edrych ar agwedd mudiad y Sgowtiaid a'r Geidiaid at addysgu yn y maes hwn. Efallai hefyd bod cyfleoedd gyda darparwyr mapiau (e.e. google) yn hyrwyddo negeseuon?

Pwysigrwydd ymgysylltu â defnyddwyr terfynol i gael adborth – mae hyn yn digwydd ond mae cyfyngiadau ar gapasiti.

Yr her yw ei gwneud yn ariannol hyfyw, gan gynnwys ar gyfer ieithoedd cymunedol eraill.

Tensiynau – mae angen gwybodaeth am ddiogelwch a lefelau dealltwriaeth, ond yr hyn sy'n allweddol yw peidio â gwneud yr awyr agored yn lle brawychus ond annog pobl i'w wneud yn dda.

Awyddus i negeseuon gael eu hyrwyddo trwy fanwerthwyr mawr, ond mewn ffordd nad yw'n ymwneud â gwerthu mwy o offer, gyda ffocws yn parhau ar wybodaeth a diogelwch. Mae fforddiadwyedd citiau yn fater mawr a all eithrio pobl, felly mae angen bod yn ofalus.

**Cyflwyniad 2: Mynediad i Ddŵr (Phil Stone – Canŵ Cymru)**

- Yng Nghymru, cymerodd 61,400 o oedolion ran mewn gweithgareddau dŵr (yn 2018); 62,000 o blant yn cymryd rhan y flwyddyn drwy'r ysgol – cyfleoedd yma i gysylltu â negeseuon diogelwch yn ifanc; 7.6m ledled y DU (wedi dyblu mewn 2 flynedd)
- Mae niferoedd cyfranogiad wedi cynyddu ers y pandemig e.e. Padlfyrddio i fyny 300%, mae aelodaeth Canŵ Cymru wedi dyblu.
- Mynediad cyfyngedig am ddim i ddŵr yng Nghymru, gyda dim ond 27km o fordwyo rhydd allan o 10,700km o afonydd. Mae rhai cytundebau cyfyngedig yn eu lle, e.e. gyda chyfyngiadau ar amser defnydd
- Yng ngwanwyn 2019 ymrwymodd y Gweinidog â chyfrifoldeb dros fynediad at ddŵr i weld newid ymhen 18 mis, neu byddai'r llywodraeth yn deddfu ar gyfer gwelliannau. Fodd bynnag, ni fu unrhyw gynnydd.

- Drwy is-grŵp Fforwm Mynediad Cenedlaethol, arweiniodd proses 2 flynedd o drafodaeth gydweithredol at adroddiad yn amlinellu'r ffordd ymlaen, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â hyn.
- Llawer o arwyddion gweladwy yn gweithredu fel rhwystrau; gwrthdaro nad yw'n anghyffredin; rhwystrau ffisegol (cloddiau serth, weiren bigog).
- Mae padlwyr yn chwarae rhan wrth gefnogi afonydd glanach e.e. mae diwrnodau gwirfoddolwyr wedi arwain at symud deg tunnell o wastraff o Afon Teifi dros 4 dydd Sadwrn (gwastraff amaethyddol yn bennaf); Mae ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu yn ymddygiad cyffredin ymhlith padlwyr i sicrhau bioddiogelwch.
- Mynediad teg, wedi rhannu a chynaliadwy i bawb yw'r uchelgais.

**Pwyntiau trafod**

Rheswm dros ddim deddfwriaeth? Yr amser sydd ar gael a roddwyd fel rheswm fodd bynnag, nodwyd bod capasiti yn y pwyllgorau deddfwriaethol a'r Cyfarfod Llawn i graffu ar Filiau.

Mae rhywfaint waith ar y gweill o dreialu cytundebau pellach ond mae materion perchnogaeth yn ei gwneud yn anodd. Gallai llwybrau hawliau uwch arwain at heriau ymchwiliad cyhoeddus a'r angen am brynu gorfodol.

Mae colli is-grŵp Dŵr ar y Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn bryder – wedi meithrin perthnasoedd, ond mae dod ag ef i ben yn arwain at ail-ymgorffori a seilos.

A oes unrhyw beth i'w ddysgu o weithredu Tir Mynediad Agored, neu arwyddion bod model yr Alban yn cael ei ystyried? Cyflwynwyd Tir Mynediad Agored heb fod angen talu am hawliau, awgrymwyd y dylai'r un dull weithio ar gyfer hawliau dŵr. Teimlwyd nad yw agweddau at ddefnyddio dŵr mor hamddenol yng Nghymru ag yn yr Alban.

Pryderon bod safleoedd cyfyngedig yn gwneud pwysau amgylcheddol yn fwy eithafol – mae angen rhannu effeithiau ar draws mwy o safleoedd, gan gefnogi'r achos dros hawliau gwell.

Nid yw'r model presennol yn gweithio i Gymru, ond mae amharodrwydd i wneud rhywbeth anodd. Awgrymwyd bod polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol yn symud i fod yn fwy cefnogol ar lefel y DU.

Awgrym y gallai proses achredu ac asesu Nofio Cymru ar gyfer diogelwch nofio ar safleoedd â staff gael ei addasu i safleoedd heb oruchwyliaeth. Mae Canŵ Cymru wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru/Dŵr Cymru edrych ar eu safleoedd ar gyfer gwella mynediad.

**Cyflwyniad 3: Fframwaith Dysgu Antur (Gethin Mon Thomas - Prifysgol Bangor, Tracey Evans – Y Bartneriaeth Awyr Agored)**

- Gwerth cymdeithasol wedi'i amlygu/enillion ar fuddsoddiad ar gyfer eu gwaith gweithgareddau awyr agored (£1 o fuddsoddiad yn dod ag elw o £7.12)
- Addysg yw'r lle i gychwyn angerdd am weithgarwch fel rhan o fywyd bob dydd; cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfle drwy'r pedwar diben, cyfle i ddefnyddio profiadau dysgu antur ystyrlon yn rhan yr un mor bwysig o addysg.
- Fframwaith i helpu i ddatblygu gallu unigolyn ar draws meysydd fel risg a phrofiad o fyw, gan gefnogi dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben. Cyfrannu at ddatrys problemau, cydweithio, hyder a hunan-barch trwy brofiadau corfforol a chymdeithasol – sgiliau ac agweddau y bydd cyflogwyr eu heisiau.

- Mae’r Fframwaith yn helpu ysgolion i weld y cyfleoedd ac yn hybu ymgysylltiad â gweithgareddau, gan gynnwys ar y safle neu’n agos ato, ac oddi ar y safle, dysgu antur. Yn gysylltiedig â chysyniad Cynefin (pwyslais ar yr ardal leol - ‘tyfu gwreiddiau cyn tyfu adenydd’)
- Mae’r Fframwaith yn defnyddio egwyddorion dilyniant fel rhan o ddysgu ac asesu.
- Wrthi’n datblygu canllawiau, gwobrau, hyfforddiant staff, ac yn llunio astudiaethau achos effeithiol mewn ysgolion sy’n treialu hyn. Mae ysgolion peilot yn profi adnoddau; yn cymhwyso dysgu i fireinio a datblygu ymhellach cyn uwchraddio cenedlaethol dros 12-24 mis.
- Chwilio am gymorth a chyllid i ehangu – mae cysoni hyn yn y DU yn amcan ar gyfer y dyfodol.

**Pwyntiau trafod**

Gall pryder rhieni ac atebolrwydd arwain at natur gyfyngol addysg plant; mae amharodrwydd i fentro gan rieni a phenaethiaid ysgol yn aml yn rhwystrau. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd addysg a hyfforddiant diogelwch staff i feithrin sgiliau a hyder; hefyd, roedd canllawiau wedi'u mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru ynghylch ymweliadau awyr agored.

Pwysigrwydd cynghorwyr addysg awyr agored (OEA) yn cael sgyrsiau gyda staff a rhieni ar y manteision yn gorbwyso risgiau. Mae angen canllawiau a chyngor ar athrawon ond heb droi at gynlluniau parod sy'n mynd yn groes i ethos y cwricwlwm.

Rôl cynghorwyr addysg awyr agored (efallai y bydd gan awdurdodau lleol y rôl hon fel rhan o ddisgrifiad swydd ehangach) yw cefnogi ysgolion gyda chyfleoedd addysgol awyr agored. Mae gan Gymru rwydwaith o Gynghorwyr Addysg Awyr Agored sy’n cael ei gadeirio gan Clare Adams Ff: 01600 750221, 07966 158868. E: clareadams@monmouthshire.gov.uk .

Mae’r Canllawiau Cenedlaethol, sydd wedi’u mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru fel y brif ffynhonnell arweiniad yng Nghymru ar gyfer sefydliadau addysgol, yn cynnwys disgrifiad o rôl Cynghorwyr Addysg Awyr Agored a’r rhwydwaith cyson o Gynghorwyr ledled y wlad (https://oeapng.info)

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn ymdrin â cholegau addysg bellach ac mae Cynghorwyr Addysg Awyr Agored yn dechrau cyflwyno hyfforddiant Cydlynwyr Ymweliadau Addysg Bellach ar gyfer uwch reolwyr colegau addysg bellach. Mae yna weithgor ar hyn o bryd ar gyfer y fenter hon, sy’n cael ei gefnogi gan y Senedd, o dan gadeiryddiaeth Paul Airey, gyda Mike Rosser yn swyddog datblygu. Swyddog arweiniol Llywodraeth Cymru yw Marion Jebb, pennaeth ôl-16 Ansawdd mewn Addysg Bellach. (marian.Jebb@llyw.cymru).

Mae'r Sefydliad Dysgu yn yr Awyr Agored yn gobeithio cynnal cynadleddau yn 2024 i ddod ag athrawon a darparwyr at ei gilydd i rannu gwybodaeth a rhoi cymorth, e.e. asesiad risg dan arweiniad plentyn i ddatblygu sgiliau.

Gall pwysigrwydd datblygu sgiliau gwneud penderfyniadau yn y cwricwlwm gael ei gefnogi gan y dull dysgu awyr agored hwn; Mae covid wedi effeithio'n andwyol ar y ffordd y mae plant yn rhyngweithio ac yn ymddwyn.

**Cyflwyniad 4 - Gwerthusiad Economaidd a Chymdeithasol o’r Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru (Paul Donovan - Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru)**

- Sicrhaodd Fforwm Arfordirol Sir Benfro, sy’n aelod craidd o Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru ochr yn ochr â Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored Eryri-Bywiol a De Cymru, gyllid gan Gronfa Her Meithrin Gallu Arfordirol Llywodraeth Cymru i gynnal

gwerthusiad economaidd a chymdeithasol o'r sector gweithgareddau awyr agored yng Nghymru.

- Cynhaliwyd yr ymchwil gan Miller Research gyda'r nod o asesu'r effaith economaidd, ystyried gwerth cymdeithasol gweithgareddau antur, a gosod llinell sylfaen i alluogi cynllun strategol ar gyfer twristiaeth antur.
- Daeth 606 o ymatebion i'r arolwg gan gyfranogwyr gweithgaredd a darparwyr gweithgareddau, gan ddangos twf a newid sylweddol yn y sector awyr agored fel yr amlygwyd mewn ymchwil tebyg a gynhaliwyd gan Miller Research yn 2014.
- Gwerth iechyd meddwl y sector gweithgareddau awyr agored i Gymru yw £26.4m, gyda 94% yn nodi iechyd meddwl a lles fel rhywbeth eithriadol neu bwysig iawn.
- Roedd lefelau boddhad ymwelwyr yn uchel gyda 94% yn dweud y byddent yn dod yn ôl i Gymru neu'n ei argymell i eraill.
- Effaith economaidd net darparwyr gweithgareddau awyr agored yw £272.87 miliwn y flwyddyn gyda £205 miliwn yn aros yng Nghymru.
- Mae effaith net twristiaeth gweithgareddau awyr agored ar economi Cymru yn £1.619 biliwn y flwyddyn gyda 31,300 o swyddi'n cael eu cefnogi, sy'n cyfateb i 21% o'r gweithlu twristiaeth yng Nghymru.
- Mae'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau antur gyda darparwr gweithgareddau yn debygol o aros yn hirach, gwario mwy ac ymddwyn yn briodol.
- Gallai Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) roi hwb sylweddol i'r sector awyr agored.
- Byddai cynnydd o 10% mewn cyfranogiad yn creu enillion gwerth cymdeithasol o £187 miliwn.

**Pwyntiau trafod**

A yw'r gwerthusiad wedi edrych yn benodol ar ddarparwyr Cymraeg eu hiaith? Ni amlygwyd hyn yn benodol yn yr adroddiad hwn.  Mae rhywfaint o waith ar y gweill trwy PhD ym Mhrifysgol Caerdydd

Pwysigrwydd eglurder ynghylch defnyddio metrigau fel gwerth cymdeithasol a bod yn glir pan fydd yn ymwneud â phrosiect penodol / neu arolwg mwy cyffredinol. Perygl o fetrigau gwahanol ar gyfer sector yn cael eu defnyddio a allai danseilio hygrededd.

## Diweddariad cyffredinol

### Gweithgaredd Antur Achrediad (Paul Donovan - Adventure UK, Cynghrair Awyr Agored Cymru)

- Yn 2017, gofynnodd HSE i Adventure UK (Cyngor Ymgynghorol y Diwydiant Gweithgareddau Antur gynt) gynnig cynllun amgen anstatudol i gynllun yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur (AALA), gan ystyried meini prawf allweddol a osodwyd gan HSE.
- Ymgynghorodd HSE â'r sector gweithgareddau antur yn y DU, gan gynnig 3 opsiwn posibl: Opsiwn 1 - status quo; Opsiwn 2 - diwygiadau i'r statud ynghylch ehangu'r ystod o weithgareddau a dileu'r ffi benodol i alluogi aliniad; Opsiwn 3 - diddymu Deddf Canolfannau Gweithgaredd (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 o blaid cynnig Adventure UK.

Canlyniad yr ymgynghoriad oedd bwrw ymlaen ag Opsiwn 3 - datblygu cynnig AdventureUK ymhellach.

- Gwaith datblygu pellach, ymgynghori â'r sector gweithgareddau antur yn y DU a chysylltu â HSE, gan arwain at gyflwyno cynnig terfynol i HSE yn 2022.
- Yn ystod y cyfnod hwn, penodwyd contractwr newydd (AdventureRMS) ar gyfer y cynllun AALA, gyda HSE yn cyflawni'r rôl weinyddol. Roedd hyn yn cael ei wneud yn flaenorol gan y contractwr blaenorol (TQS).
- Mae HSE bellach wedi cadarnhau eu bod am barhau â'r trefniadau presennol o ran trwyddedu statudol yn y DU ar gyfer gweithgareddau antur ac na fyddant yn dilyn cynnig Adventure UK. Mae hyn er bod ymgynghoriad HSE yn 2017 yn nodi mai ychydig iawn o gefnogaeth sydd i Opsiwn 1, sef gwneud dim byd a dim newid.

**D.S.** I ddilyn Opsiynau 2 a 3 mae'n rhaid cael cymeradwyaeth y Bwrdd HSE a Gweinidogion ynghyd ag amser seneddol i naill ai ddiwygio neu ddiddymu Deddf Canolfannau Gweithgaredd (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995.

- Mae gan y sector gweithgareddau antur yn y DU un cynllun achredu statudol (AALA) sydd wedi'i anelu at ddarparwyr sy'n darparu rhai gweithgareddau i rai dan 18 oed, a nifer o gynlluniau achredu anstatudol. Adventuremark, Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth (LOtC) Bathodyn Ansawdd Gweithgareddau Antur, Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored (AHOEC) Safon Aur a Chymdeithas Darparwyr Gweithgaredd Prydain (BAPA) sydd wedi'u hanelu at ddarparwyr sy'n cynnig unrhyw weithgareddau antur ni waeth i bwy y maent yn ei ddarparu ac i ble y'i darperir. Yn ogystal, mae nifer o gynlluniau Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer gweithgareddau penodol.
- Mae gan Croeso Cymru ei gynllun sicrwydd gweithgareddau antur ei hun i alluogi darparwyr gweithgareddau antur yng Nghymru i gael eu rhestru ar CroesoCymru.com. Mae'r cynllun yn cydnabod cynlluniau achredu'r DU ac yn darparu llwybr ar gyfer y rhai nad ydynt wedi'u hachredu gan un o gynlluniau'r DU. Mae'r llwybr hwn yn cynnwys ymgynghoriad ag ymgynghorydd technegol a enwebwyd gan Croeso Cymru ac mae'n cynnwys archwiliad o'r busnes ac arsylwi gweithgaredd i sicrhau bod y darparwr yn bodloni deg safon cynllun Croeso Cymru.

**Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) (Sam Rowlands AS)**

- Rhoddwyd caniatâd i fwrw ymlaen a'r Bil ym mis Hydref 2022, gan roi 13 mis i osod fersiwn o'r Bil yn y Senedd (erbyn mis Tachwedd 2023). Cynhaliwyd ymgynghoriad eang yn gynnar yn 2023, ac mae ymgynghoriad plant a phobl ifanc ar y gweill ar hyn o bryd.
- Mae'r Bil drafft wedi'i gadw mor syml â phosibl a bydd yn agored ar gyfer ymgynghoriad yn yr haf. Nid yw'n bosibl sicrhau ymrwymiad cyllid drwy'r ddeddfwriaeth, felly mae'r Bil yn cael ei ddrafftio'n ofalus. Codwyd yr her o ran sicrhau cefnogaeth wleidyddol, o ystyried y pleidleisiau sydd ar gael, ond os yw'r bleidlais yn gyfartal, y confensiwn yw y bydd y Cadeirydd yn pleidleisio dros y Bil.

## Camau i'w cymryd yn sgil y cyfarfod

**Cam i'w gymryd**: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddarparu copïau o gyflwyniadau a nodiadau allweddol ategol ar gyfer cyfarfod mis Mehefin i'r Cadeirydd i'w dosbarthu

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** i'w gadarnhau.